

## **Cynrychiolwyr aelodau Cymdeithas yr Amgueddfeydd Cyfle i chi gynrychioli'ch rhanbarth/cenedl a helpu i lywio dyfodol eich cymdeithas.**

Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) yn sefydliad aelodaeth deinamig sy'n ymgyrchu ar ran amgueddfeydd sy'n ymwneud â'r gymuned a gweithlu bywiog a chynhwysol. Mae'r cynrychiolwyr yn ddolen gyswilt hanfodol rhwng yr MA a'i haelodau ac maent yn ymdrechu i hyrwyddo'r sefydliad, ei bolisiau a'i werthoedd.

Nid yw'r cynrychiolwyr yn cael eu talu ond fe gewch lawer o fuddion am roi'ch amser ac fe gaiff eich treuliau eu had-dalu.

### **Beth gewch chi?**

- Lle am ddim yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas yr Amgueddfeydd bob blwyddyn, gwerth hyd at £350
- Lle am ddim yn ein cynadleddau undydd, Moving on Up a Don't Stop Me Now bob blwyddyn
- Ffioedd blwyddyn tuag at eich AMA neu FMA wedi'u talu drosoch
- Cyfle i gyfrannu at bolisiau a phrosiectau'r gymdeithas fwyaf yn y Deyrnas Unedig o weithwyr amgueddfeydd proffesiynol.

### **Beth fyddwch chi'n ei wneud?**

- hyrwyddo a chynrychioli'r MA a'i gwerthoedd a'r polisiau y mae'n eu blaenoriaethu wrth y sector amgueddfeydd
- cyflwyno barn yr aelodau a datblygiadau rhanbarthol yn y sector i'r MA
- cadw mewn cysylltiad ag aelodau'r ardal leol ynghylch polisiau a gweithgareddau'r MA a chysylltu â'r aelodau a'r sector trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'n rhestrau ebost JISCMAIL rhanbarthol/cenedlaethol
- helpu i hwyluso ein cynhadledd flynyddol a chyfarfodydd aelodau yn eich rhanbarth/cenedl ac annog pobl i ddod iddynt
- trefnu o leiaf ddau gyfarfod anffurfiol y flwyddyn ar gyfer aelodau yn eich ardal chi naill ai ar Zoom neu wyneb yn wyneb
- mynychu cyfarfodydd cyrff rhanbarthol/cenedlaethol perthnasol ar ran yr MA
- mynychu cyfarfodydd cynrychiolwyr yr aelodau i rannu adborth ac i ddysgu am fentrau polisi, ymgynghoriadau a chynlluniau yr MA
- annog unigolion a sefydliadau i ymuno â'r MA a mynychu digwyddiadau'r MA
- cyfrannu at Museums Journal, ein digwyddiadau a'n gwefan lle bo'n briodol

### **Yn eich blwyddyn gyntaf, byddwch yn ...**

- Cael cyfarfod cychwynnol gydag aelod o staff yn yr MA a chynrychiolwyr eraill yn eich rhanbarth/cenedl i drafod eich cynllun gweithredu am y flwyddyn
- Cynnal cyfarfodydd anffurfiol i aelodau yn eich ardal chi, gan gydweithio â chynrychiolwyr eraill yn eich rhanbarth/cenedl. Gall hyn fod wyneb yn wyneb mewn amgueddfa/tafarn/canolfan ddigwyddiadau neu gall fod yn rhithwir dros Zoom.

- Trefnu bod o leiaf un amgueddfa yn eich rhanbarth/cenedl yn ymuno fel aelod.
- Cyfrannu at rwydweithio yn y Gynhadledd trwy drefnu digwyddiadau bord gron ar bynciau penodol yn y sector.